# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 10/06/15

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths a Gweno Glyn

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Dr W Gwyn Lewis (Eglwys Bresbyteraidd Cymru).

**Aelod Cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC)

**Swyddogion:** Mrs Mai Bere (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**GwE:** Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Annwen Daniels, Llywarch Bowen Jones, Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr), Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru), Mrs Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Miriam Amlyn (Undeb Athrawon NAS/UWT)

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Rheinallt Thomas.

**2. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Gweno Glyn yn Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Croesawyd Mai Bere i'w chyfarfod cyntaf o CYSAG Gwynedd yn y rôl o Glerc CYSAG fel olynydd i Mr John Blake sydd bellach wedi ymddeol. Gofynnwyd i'r Swyddog

Cefnogi Aelodau anfon gair o ddiolch i Mr Blake am ei wasanaeth a chefnogaeth i CYSAG yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac i ddymuno'n dda iddo.

(b) Cyfeiriwyd at benderfyniad Mr Wyn Myles Meredith i ymddeol o wasanaethu ar CYSAG a deallir ei fod yn trefnu i gynrychiolydd arall wasanaethu yn ei le ar ran Yr Eglwys Fethodistaidd.

Bu Mr Meredith yn aelod ffyddlon o GYSAG ers ei ymddeoliad fel Aelod o Gyngor Gwynedd yn 2008 ac yr unig un sydd wedi cynrychioli CYSAG Gwynedd ar Gymdeithas CYSAGau Cymru gan fynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd.

Gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau anfon llythyr i Mr Meredith yn diolch iddo am ei ymroddiad a'i gefnogaeth i CYSAG ar hyd y blynyddoedd ac i ddymuno pob dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol.

(c) Cyfeiriwyd at benderfyniad Mr Noel Dyer i ymddeol yn gynnar o'i swydd yn Ysgol Glan y Môr ac felly yn yr un modd yn ymddeol fel aelod o CYSAG Gwynedd. Cymerwyd y cyfle i ddiolch i Mr Dyer am ei wasanaeth clodwiw a'i gyfraniad gwerthfawr i waith CYSAG ar hyd y blynyddoedd ac yr un pryd yn dymuno ymddeoliad hapus iddo. Hyderir y gall efallai barhau i gyfrannu at waith CYSAG mewn rôl arall yn ystod ei ymddeoliad.

(ch) Nodwyd hefyd bod Mrs Miriam Amlyn i ffwrdd ar absenoldeb mamolaeth ac estynnwyd pob dymuniad da iddi.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu anfon llythyrau, ar ran CYSAG, i ddiolch ac i ddymuno'n dda i'r rhai a nodwyd uchod.**

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2015 fel rhai cywir.

### 6.1 Eitem 6 – Hunan Arfarniadau Ysgolion

Yn deillio o'r cofnodion diwethaf, tynnwyd sylw at benderfyniad i gynnal cyfarfod o CYSAG mewn ysgol ond ni fu'n bosibl i wneud trefniadau ar gyfer y cyfarfod y tro hwn. Ceisir trefnu eto ar gyfer y cyfarfod nesaf i'w gynnal ym mis Tachwedd.

## 7. ADRODDIAD GAN YMGYNGHORYDD HER GwE

### (a) Addoli ar y Cyd

Adroddodd yr Ymgynghorydd Her bod ymdrech wedi ei wneud i adnabod ffordd i ymgymryd â monitro safonau addoli ar y cyd. Atgoffwyd y pwyllgor bod holiadur wedi cael ei ddosbarthu oddeutu blwyddyn yn ôl er mwyn adnabod ffyrdd i ymgymryd â chyfrifoldebau unigol dros fonitro safonau Addysg Grefyddol neu addoli ar y cyd gyda'r ymatebion hynny yn llywio'r gwaith a'r bwriad bellach ydoedd rhoi trefniadau mewn lle i fonitro. Cyfeiriwyd at arweiniad ESTYN i'w harolygwyr ar yr hyn i'w fonitro wrth iddynt arolygu addoli ar y cyd. Cyfeiria'r arweiniad at y gofynion cyfreithiol sef bod addoli ar y cyd yn digwydd yn ddyddiol ar unrhyw bryd yn ystod y dydd a bod hawl gan rieni i dynnu eu plant o'r addoliad. Tra'n derbyn nad oedd Aelodau CYSAG yn hoff o arolygu addoli ar y cyd gwnaed awgrym iddynt ymweld ag ysgolion i gael blas ar addoli ar y cyd. Cyfeiriwyd ymhellach at arweiniad gan Gymdeithas CYSAGau Cymru yn nodi pam bod addoli ar y cyd yn fuddiol i blant a'i fod yn hybu datblygiad ysbrydol disgyblion ac yn cyfrannu at ddatblygiad personol ac yn fuddiol i

gael ymdeimlad bod ysgolion yn gymuned ac yn cysylltu'r ysgolion â'r gymuned leol. Hefyd, fe graffir ar adroddiadau ysgolion ac yn gofyn a ydynt yn diwallu gofynion statudol.

Cyflwynwyd ffurflen i Aelodau yn ystod y cyfarfod i helpu cofnodi wrth iddynt fynychu sesiynau addoli ar y cyd ac fe'i tywyswyd drwy gynnwys y ffurflen.

Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Bod angen bod yn wyliadwrus o ran cadw at yr hyn sy'n statudol o safbwynt Addysg Grefyddol oherwydd mewn rhai ysgolion erbyn hyn bod gofynion eraill ar athrawon yn ystod cyfnodau cofrestru megis cyflwyno llythrennedd, darllen, a'i fod yn anoddach cynnal gwasanaeth dosbarth oherwydd hyn.

(b) Bod rhai llywodraethwyr yn cael ei dynodi yn bencampwyr i roi rhagolwg ar Addysg Grefyddol a/ neu bynciau eraill ac a fyddai modd defnyddio'r llywodraethwyr hyn i'r eithaf ar gyfer monitro rhag dyblygu'r gwaith.

Mewn ymateb, nodwyd bod gan CYSAG rôl statudol i fonitro drwy samplo ac arsylwi bod yr hyn mae ysgolion yn nodi yn yr hunan arfarniadau yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.

(c) Croesawyd y ffurflen gan ychwanegu y byddai'n ddefnyddiol ac o gymorth i'r ysgolion a llywodraethwyr hefyd.

(d) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â rhwystredigaeth mewn addoli ar y cyd lle ceir nifer o wahanol grefyddau, ni ragwelir y byddai hyn yn broblem gan fod rhieni yn eithaf hapus i'w plant gymryd rhan mewn gwasanaeth / gweithgareddau ysgol a bod hwythau fel rhieni yn cymryd cyfrifoldeb dros y ffydd.

(e) Bod Aelodau CYSAG Ynys Môn eisoes yn ymweld ag ysgolion i fonitro addoli ar y cyd a'r trefniadau wedi bod yn llwyddiannus gydag ymateb ysgolion yn bositif iawn.

**Penderfynwyd: Derbyn y ffurflen monitro a chymeradwyo i arbrofi'r defnydd ohoni wrth ymweld â'r ysgolion gan bwysleisio bod y broses ar gyfer cefnogi ysgolion ac nid i'w harolygu.**

**(b) Datblygu Llythrennedd a Rhifedd mewn Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3**

Derbyniwyd cyflwyniad ar ffurf sleidiau o adnoddau a ddarparwyd gan Mary Parry, Ymgynghorydd Cysylltiol Addysg Grefyddol gyda Sir Gaerfyrddin, ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd mewn Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3 yn seiliedig ar beldroedwyr o'r un ffydd. Gwelwyd enghreifftiau o dasgau penodol ar weithgareddau megis ysgrifennu llythyr ynglyn â chredoau sy'n cynnwys sgiliau llythrennedd a rhifedd ac yn cynnwys unedau yn ymwneud â gweddi, bwyd a diod, Ramadan, a.y.b.

Cyflwynwyd yr uchod i gyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru yn ddiweddar a oedd o'r farn ei fod yn adnodd defnyddiol dros ben

Amlygwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau CYSAG:

(a) Ei fod yn adnodd da ar gyfer denu diddordeb bechgyn.

(b) Y byddai ysgolion yn ei weld yn werthfawr fel adnodd
(c) Croesawyd y pecyn fel adnodd da hefyd ar gyfer datblygu llythrennedd a'i wneud mewn cyd-destun ystyrlon ac yn ychwanegol bod cyfle i ddefnyddio sgil i drawsieithu a fyddai'n werthfawr yng nghyd-destun addysg ddwyieithog yng Nghymru

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r pecyn a chytunwyd y byddai Aelodau CYSAG a'r Ymgynghorydd Her GwE yn eu rhannu i'r 14 ysgol uwchradd y Sir.**

**(c) Diweddariad ar ymgynghoriad Yr Athro Donaldson ar Gwricwlwm i Gymru**

Adroddodd Ymgynghorydd Her GwE bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Athro Donaldson gynnal ymgynghoriad gyda gwahanol fudiadau ar gyfer llunio cwricwlwm newydd i Gymru. Atgoffwyd y pwyllgor yn ystod yr 80au bod maes llafur CYTÛN wedi ei lunio ar gyfer ysgolion Gwynedd a Môn ond ers 2007 cytunwyd bod CYSAG Gwynedd wedi cytuno i ddefnyddio fframwaith cenedlaethol ar gyfer y cwricwlwm ac roedd Addysg Grefyddol ar draws Cymru yn debyg i'w gilydd. Pe bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion Yr Athro Donaldson gall olygu newidiadau radical. Roedd Ymgynghorydd Her GwE wedi llunio ymateb ar ran CYSAG i'r argymhellion fel a ganlyn:

(1) Ym mha ffyrdd rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno nad yw'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yn addas bellach i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru?

*Bod Aelodau CYSAG Gwynedd yn cydnabod nad yw rhai agweddau o'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc Cymru mewn oes ddigidol. Fodd bynnag, mae egwyddorion sylfaenol addysg yn ddigyfnewid, sef datblygu plant a phobl ifanc wybodus, ddeallus, chwilfrydig a sensitif sy'n dangos parch tuag at gyd-ddyn a'r amgylchfyd mewn byd sy'n newid. Mae addysg grefyddol eisoes yn cyfrannu at hyn wrth i ddysgwyr feithrin mwy o ddealltwriaeth o arwyddocâd crefydd a'i bwysigrwydd i bobl.*

(2) Beth yw eich barn am y pedwar diben cyffredinol sy'n cael eu disgrifio yn yr Adroddiad? Yn gyffredinol, ydych chi'n credu mai'r rhain yw'r sail briodol i'r cwricwlwm i blant a phobl ifanc Cymru yn y dyfodol? Ac, os nad ydynt, pam hynny?

*Bod CYSAG Gwynedd yn cefnogi'r pedwar diben cyffredinol sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad. Mae addysg grefyddol eisoes yn "ysgogi dysgwyr i feddwl drostynt eu hunain er mwyn datblygu dealltwriaeth o fywyd, y byd a chwilio am ystyr sy'n eu hysbrydoli i drawsffurfio eu hunain yn bersonol, yn gymdeithasol ac yn fyd-eang" (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru, 2008)*

(3) Fframwaith newydd: 6 maes dysgu a phrofiad. Ym mha ffyrdd rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn o weithredu?

*Bod CYSAG Gwynedd yn croesawu'r sylw penodol a theilwng a roddir i Addysg Grefyddol yn yr adroddiad a'u bod yn ymwybodol o gyfraniad gwerthfawr addysg grefyddol i'r chwe maes dysgu a phrofiad. Fodd bynnag erys rhai cwestiynau:*

- *Sut gellir sicrhau na fydd addysg grefyddol yn "mynd ar goll" o fewn y Dyniaethau a'r meysydd dysgu a phrofiad eraill?*
- *I ba raddau gellir bod yn hyderus bod ysgolion yn deall hanfodion addysg grefyddol yn yr unfed ganrif ar hugain?*
- *Sut gall ysgolion gyflwyno gofynion y Maes Llafur Cytûn o fewn y Dyniaethau a'r meysydd dysgu a phrofiad arall a pharhau i ganiatáu i rieni i dynnu eu plant o'r gwersi addysg grefyddol pe dymunent wneud hynny?*

(4) Asesu sy'n cefnogi dilyniant addysgol? Ym mha ffyrdd rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn o weithredu?

*Bod CYSAG Gwynedd yn credu mai pwrpas asesu yw cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd. Mae arferion da "asesu ar gyfer dysgu" wedi cynorthwyo dysgwyr yng Ngwynedd i wneud cynnydd da mewn addysg grefyddol. Mae meithrin dealltwriaeth dysgwyr ac athrawon o'r "camau dilyniant" yn gymorth wrth gynllunio profiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion.*

*Ar hyn o bryd mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol yn y sector uwchradd trwy graffu ar asesiadau athrawon CA3 a chanlyniadau arholiadau allanol CA4 a CA5. Mae'n debygol y bydd trefn asesu newydd yn codi heriau newydd:*

- *Sut bydd CYSAG Gwynedd yn diwallu eu cyfrifoldebau statudol i fonitro safonau addysg grefyddol?*
- *Pwy fydd yn llunio'r "camau dilyniant"? A fydd y llinynnau "Addysg grefyddol" yn amlwg? A fydd CYSAG Gwynedd yn gallu cyfrannu at y broses o lunio'r "camau dilyniant"?*
- *Pwy fydd yn hyfforddi'r athrawon i ddefnyddio'r "camau dilyniant" er mwyn helpu'r dysgwyr i wneud cynnydd mewn addysg grefyddol?*
- *Pwy fydd yn gyfrifol am "samplo" safonau addysg grefyddol? Pa mor aml? A fydd CYSAG Gwynedd yn gallu cyfrannu at y broses samplo? A fydd CYSAG Gwynedd yn cael mynediad i ganfyddiadau'r proses samplo?*

(5) Beth yw'ch ymateb cyntaf i'r egwyddorion addysgeg sydd wedi'u disgrifio yn Adroddiad yr Athro Donaldson?

*Bod CYSAG Gwynedd yn croesawu'r sylw a roddir i egwyddorion addysgeg yn yr adroddiad. Mae llawer o'r egwyddorion eisoes yn greiddiol i'r arweiniad a rhoddwyd i athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol yn ysgolion Gwynedd. Fodd bynnag, rydym yn annog yr athrawon i fyfyrio are u hymarferion er mwyn sicrhau bod eu strategaethau dysgu ac addysgu yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd dysgwyr.*

(6) Ysgolion ac athrawon yn chwarae rhan yn siapio'r cwricwlwm. Ym mha ffyrdd rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod hyn yn ddymunol?

*Bod Aelodau CYSAG Gwynedd yn gwybod o brofiad am gyfraniad allweddol athrawon ac Aelodau i'r proses o ddatblygu a chymeradwyo maes llafur Cytûn ac unrhyw ganllawiau atodol. Teimlir bod athrawon eisoes yn rhydd i ddatblygu ymchwiliadau sy'n berthnasol i'w ddisgyblion o fewn "fframwaith" o "ystod" penagored a "sgiliau pwnc". Rydym yn awyddus bod athrawon yn darparu profiadau addysg grefyddol sy'n ysgogol ac yn berthnasol i'w disgyblion. Fodd bynnag, credir y dylai plant a phobl ifanc ddysgu am y cymunedau crefyddol lleol a chenedlaethol sydd yn, ac wedi cyfrannu at fywyd Cymru. Erys rhai cwestiynau:*

- *Mewn cyfnod o doriadau, a fydd gan ysgolion arbenigwyr addysg grefyddol sy'n gallu arwain y broses o ddatblygu'r cwricwlwm?*
- *Sut gellir sicrhau na fydd disgyblion yn ailadrodd testunau neu themâu addysg grefyddol?*
- *A fydd gan athrawon mewn ysgolion uwchradd gwledig yr egni a'r amser i ddatblygu cwricwlwm newydd ac ymateb i ofynion arholiadau allanol newydd?*

(7) Beth yw'r ffordd orau o barhau â'r broses hon o gyfranogi a sut y byddai'ch ysgol / lleoliad chi'n hoffi cymryd rhan?

*Bod CYSAG Gwynedd yn awyddus i barhau i gyfrannu at y broses o ddatblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd trwy ymateb i holiaduron a gweithdai. Mae addysg grefyddol o'r safon uchaf eisoes yn flaenoriaeth i'r Aelodau etholedig, cynrychiolwyr crefyddol ac athrawon sy'n mynychu Cyfarfodydd CYSAG yn rheolaidd.*

*Cynrychiolir CYSAG Gwynedd ar y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) ac ar Gymdeithas CYSAGau Cymru ac mae Gwynedd yn cyfrannu at waith Mudiad Addysg Grefyddol Cymru a gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod profiad, gwybodaeth ac arweiniad y cyrff hyn.*

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygodd cynrychiolydd yr athrawon bod Undeb UCAC yn croesawu mwyafrif cynnwys adroddiad Yr Athro Donaldson, ond mynegwyd pryder ganddynt am weithrediad y cwricwlwm yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni sy'n golygu llawer iawn o newidiadau sydd yn eithaf costus.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a chymeradwyo'r ymatebion a gyflwynwyd ar ran CYSAG Gwynedd i adroddiad yr Athro Donaldson.**

## 8. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

(a) Tywysodd Clerc CYSAG yr Aelodau drwy daflen a gyflwynwyd yn nodi crynodeb o ganfyddiadau ysgolion gan dynnu sylw bo 5 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd wedi eu harolygu gan ESTYN yn ystod tymor y Gwanwyn 2015 ynghyd ag Ysgol y Traeth gyda'r adroddiad heb ei chyhoeddi hyd yma. Rhagwelir y bydd 4 ysgol arall yn cael eu harolygu yn ystod y tymor hwn sef Ysgolion Llanaelhaearn, Llanrug, Llanelltyd a Hirael.

(b) O safbwynt CYSAG, er mai anfoddhaol nodwyd gan ESTYN o safbwynt Ysgol Gynradd Dolgellau, tynnwyd sylw y cyfeiria hyn at drefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion.

(c) O safbwynt yr adroddiad blynyddol, tynnir sylw at gasgliadau a godir yn nhermau darpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

(ch) Nodwyd mai anaml mae adroddiadau yn eu cyfanrwydd yn cyfeirio at addysg grefyddol. Cyfeiria adroddiad Ysgol Dyffryn Nantlle bod y ddarpariaeth ar gyfer CA4 yn anfoddhaol o ran amserlen ac felly awgrymwyd fel Aelodau CYSAG y byddai'n fuddiol i wahodd yr ysgol i rannu eu hadborth. Mewn ymateb, awgrymwyd ymhellach y byddai adroddiad ysgrifenedig yn dderbyniol yn hytrach na thynnu'r athro / athrawes allan o'r ysgol.

(b) Tywyswyd yr Aelodau drwy hunan arfarniadau Ysgolion Coed Mawr, Bro Plennydd, Tanygrisiau, Yr Eifl, Ffridd y Llyn a Felinheli, gan gyfeirio at y tri chwestiwn allweddol sef:

1. Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?
3. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Cytunwyd bod yr hunan arfarniadau yn cyfartalu â'r hyn a nodir yn arolygiadau ESTYN.

Nododd Ymgynghorydd Her GwE bwysigrwydd i gyfeirio at addysg grefyddol yn yr hunan arfarniadau er mwyn i CYSAG gael blas o'r hyn maent yn wneud ynghyd â'r defnydd o eirfa briodol.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 9. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

### (a) Cofnodion cyfarfod diwethaf

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2015 yn Sir Benfro.

Adroddwyd nad oedd mater penodol yn codi o'r cofnodion gan fod Aelodau CYSAG eisoes wedi derbyn cyflwyniadau a gyflwynwyd i Gymdeithas CYSAGau Cymru o dan eitem 7 uchod.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

**(b) Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 25 Mehefin 2015 yn Sir Fflint.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.45 pm

**CADEIRYDD**